# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 10fed Medi 2018

Presennol: Henry Huws, Richard Williams, Humphrey Williams, John Davies, Sian Parri, Medwyn Jones.
Ymddiheuriadau: Seimon Glyn.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Adroddodd y Cadeirydd fod dau gais cynllunio wedi dod I law ym mis Awst, a bod y Clerc wedi cysylltu a un Cynghorydd o bob ward i gael eu barn.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
   a. Porth Colmon: Dywedodd Medwyn Jones fod Cymdeithas Cawellaid Llyn yn datgan eu diolch am yr arwyddion newydd.
   b. Panel Annibynnol Cymru: Gofynnodd y Cadeirydd i bob Cynghorydd anfon y ffurflen I ddatgan eu dymuniad/neu ddim i dderbyn lwfans £150.00 yn ol i'r Clerc erbyn diwedd mis Medi.
   c. Llwybyr Pencaerau: Cynhelir pwyllgor yn Llaniestyn Dydd Mawrth 11ed Medi – anogodd y Cadeirydd i gymaint a phosib fod yn bresennol.
   ch. Toiledau Tudweiliog – Seimon Glyn ddim yn bresennol i adrodd yn ol.

5. **Gohebiaethau**:
    a. Yswiriat Zurich - derbyniwyd anfoneb am £390.63 a phasiwyd i'w dalu
    b. Ico – derbyniwyd anfoneb am £40.00 a pasowyd i'w dalu.
    c. Llanw Llyn 0 derbyniwyd anfoneb am £6.30 a pasiwyd i'w dalu.
    ch. JA Pozzi (torri llwybrau) – Derbyniwyd anfoneb am £612.00 a pasiwyd i'w dalu.
    d. Glenys Peters – derbyniwyd anfoneb am £355.00 a pasiwyd i'w dalu.
    dd. Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio: Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd yn annog y Cyngor Cymdeithas i ddatgan eu barn ar yr hyn y dymunem ei gael neu ei weld gan y Gwasanaeth Cynllunio. Penderfynwyd ateb drwy ddatgan "Dymuan Cyngor Cymdeithas Tudweiliog fod yr Adran Gynllunio ar gael i roi Cyngor cychwynnol I gais cynllunio boed ar y ffon neu drwy ymweld a safle, cyn fod angen cyflwyno cais Cynllunio a thalu'r ffi"
    e. Pwyllgor Adran Arfon/Dwyfor Un Llais Cymru – dywedodd Y Cadeirydd y byddai'n ceisio bod yn bresennol.
    f. Praesept – derbyniwyd ail daliad o £3000.00
    ff. Arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc newydd contract cyflogaeth.

6. **Unrhyw fater arall**:
    a. PAYE y Clerc – Dywedodd Heulwen nad oedd yn hapus i ddelio gyda'r PAYE, pasiwyd i dalu i'r cyfrifydd John Tudor I weithredu hyn yn fisol am gost o £10.00 y mis
    b. Mandate – Gan fod angen newid madate y banc I alluogi'r Cler newydd arwyddo sieciau bu'n rhaid llenwi ffurflen gan y banc. Arwyddwyd y ffurflen newydd gan: Heulwen Williams, Sian Parri, Medwyn Jones, Henry Huws, Humphrey Williams a John Davies.
    c. Glenys Peters – Penderfynwyd y dylid dangos ein gwerthfawrogiad i Glenys Peters am ei gwaith dros y blynyddoedd drwy fynd allan am swper i westy Nanhoron Nefyn (dyddiad i'w benodi yn y pwyllgor nesaf) – hefyd pasiwyd i bob aelod o'r Cyngor gyfranu £20.00 fel y gellid cyflwyno Glenys gyda'r rhodd.
    ch. Cafwyd ar ddeall fod cyflwr y lon rhwng pentref

Llaniestyn a Chapel Dinas yn eithriadol o ddrwg, pasiwyd y dylid ysgrifennu at yr Adran Ffyrdd i'w gwybyddu.

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 8fed Hydref 2018 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**